RHAGLEN GYMORTH MATHEMATEG BELLACH CYMRU

CYLCHLYTHYR

Gaeaf 2014/15

Rhifyn 1

Cynadledd Blwyddyn 11 Prifysgol Bangor

Gogledd Cymru

Cynhaliodd FMSP Cymru Gynhadledd Blwyddyn 11 ym Mhrifysgol Bangor ar 18fed o Fedi 2014. Mynychodd 95 o fyfyrwyr y digwyddiad, o 10 ysgol yng Ngogledd Cymru. Cynhaliwyd y gynhadledd dros ddiwrnod llawn gyda myfyrwyr yn cymryd rhan mewn dau weithdy a sgwrs. Roedd 47 o ferched a 48 o fechgyn. Cafodd un gweithdy ei gyflwyno gan Katie Speckles, siaradwraig adnabyddus, ac un trwy gyfrwng y Gymraeg gan Dr Gareth Ffowc Roberts.

Newyddion Gwefan

Cynllun newydd y Wefan: http://www.furthermaths.org.uk/wales

Taflen Newydd Gwybodaeth i Rieni http://www.furthermaths.org.uk/wales-parents-info#cymraeg

Astudiaethau achos newydd http://www.furthermaths.org.uk/wales-case-studies#cymraeg

Dysgu

Mae dysgu Mathemateg Bellach drwy FMSP Cymru wedi cynyddu 33% y flwyddyn academaidd hon.

Sgyrsiau ar Yrfaoedd mewn Mathemateg

Ychydig iawn o swyddi sy'n dwyn y teitl "Mathemategydd". Ond gall mathemateg arwain at rai o'r gyrfaoedd mwyaf cyffrous a'r cyflogau uchaf. Mae bod yn fedrus mewn Mathemateg yn ased amhrisiadwy.

Mae FMSP Cymru yn gallu darparu sgyrsiau am yrfaoedd mewn mathemateg yn rhad ac am ddim i bob ysgol a ariennir gan y wladwriaeth. Bydd myfyrwyr yn cael cipolwg ar sut mae pynciau Mathemateg penodol yn cael eu defnyddio mewn bywyd go iawn, enghreifftiau o yrfaoedd lle mae graddau mewn Mathemateg yn ofynnol a gwybodaeth am Brifysgolion. Byddant yn derbyn taflenni gyda gwybodaeth yn ymwneud â gyrfaoedd sydd angen Mathemateg. Os hoffech archebu sgwrs Gyrfaoedd mewn Mathemateg cysylltwch â thîm FMSP ar 01792 606845 neu e-bostiwch s.lyakhova@swansea.ac.uk

Adroddiad Gwerthuso Terfynol

Cafodd yr adroddiad terfynol, a oedd yn gadarnhaol iawn am waith FMSP, ei gyhoeddi ar 19eg o Fedi. Meddai Huw Lewis, y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau *"O ran yr agenda Mathemateg, mae Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach, wedi elwa ar ein cymorth ariannol, yn ehangu mynediad i Fathemateg Bellach ar lefelau TAG UG/A2," "Byddaf yn cyflwyno trefniadau yn fuan i ystyried pa wersi y gallwn ddysgu oddi wrth ddulliau megis Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach".*

William Thomas
Ysgol Bro Gwaun
Prifysgol Caerfaddon

"Diolch i'r tiwtoriaid ac FMSP cefais A* mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach a chael lle yn fy mhrifysgol dewis cyntaf"

Jessica Akins
Ysgol Uwchradd Cei Connah
Prifysgol Manceinion

"Roedd y cwrs yn ddefnyddiol iawn a credaf y byddai o fudd i lawer o fyfyrwyr eraill i'w gwblhau. Drwy gwblhau'r cwrs fe helpodd i mi ennill gradd uwch yn fy Mathemateg Safon Uwch sef A*"

Further Mathematics Support
Let Maths take you Further...

DIGWYDDIADAU

Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r digwyddiadau hyn, ewch i http://www.furthermaths.org.uk/wales neu cysylltwch â thîm FMSP infoFMSPWales@wimcs.ac.uk ffôn 01792 606845

Gadewch i Fathemateg fynd â chi ymhellach

Cynhadledd undydd ar gyfer myfyrwyr Mathemateg Blwyddyn 12
15 Ionawr 2015 - Prifysgol Abertawe
16 Ionawr 2015 - Prifysgol Caerdydd
22 Ionwar 2015 - Prifysgol Bangor
O 8:45 i 14.15pm. **Llefydd yn cael eu dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin. I wneud cais ewch i http://www.furthermaths.org.uk/Wales_enrichment**

Diwrnodau astudio



Dyddiau Sadwrn - Ionawr-Mawrth
Mathemateg lefel A, Mathemateg Bellach a Mathemateg Ychwanegol
I'w cynnal ym Mangor, Sir Benfro, Caerdydd ac Abertawe

Astudio FP2	Trigonometreg a Rhifau Cymhlyg	10 Ionawr 2015
Astudio M2	Taflau Fector Calcwlws a Mudiant mewn Cylch	17 Ionawr 2015
Astudio S2	Profi Rhagdybiaeth	24 Ionawr 2015
Astudio FP1	Polynomialau	31 Ionawr 2015
Astudio FP2	Trychiadau Conig a Graffiau o Ffwythiannau Cymarebol	07 Chwefror 2015
Astudio Mathemateg Ychwanegol	Algebra	28 Chwefror 2015
Astudio FP1	Differu	28 Chwefor 2015
Astudio M3	Hafaliadau differol trefn un a threfn dau gyda chymwysiadau	07 Mawrth 2015
Astudio S3 ac FP1	Poblogaethau gydag amcangyfrifiannau diduedd, Dosraniad-t / Matricsau a Loci	14 Mawrth 2015
Astudio FP1 a FP3	Cyfres ac Anwythiad FP1/Hyperbolics ac Integru FP3	21 Mawrth 2015
Astudio Mathemateg Ychwanegol	Geometreg Gyfesurynnol a Calcwlws	21 Mawrth 2015

Mathemateg yw eich Dyfodol

Cynhadledd undydd i fyfyrwyr blwyddyn 10 i ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth **Dydd Iau 12fed Mawrth 2015** - 8.45 – 1.30pm Ym Mhrifysgol Abertawe.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus i Athrawon

Gall FMSP helpu i wella sgiliau athrawon mewn unrhyw fodiwl Mathemateg Bellach, os oes gennych ddiddordeb yn y cwrs neu angen mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r rhif / cyfeiriad e-bost uchod.

Digwyddiadau eraill

Mae Rhaglen STEM mewn Meddygaeth Partneriaeth Ymgyrraedd Yn Ehangach De-orllewin Cymru yn ddigwyddiad preswyl tri diwrnod, 26-28 Ionawr 2015, wedi ei anelu at fyfyrwyr Blwyddyn 12. Bydd y rhaglen yn cymryd golwg ar y gwahanol fathau o yrfaoedd sydd ar gael yn y maes meddygol sy'n dibynnu ar bynciau STEM, gan gynnwys meddygaeth, cemeg mewn meddygaeth a ffiseg feddygol. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn http://www.swansea.ac.uk/reaching-wider/otherresidentialopportunities/